College of Policing

Working together to keep people safe

Pasbortau addasiadau i'r gweithle

Rhagfyr 2022



college.police.uk

© – College of Policing Limited (2022)

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Coleg Anfasnachol f1.2 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **college.police.uk/non-commercial-college-licence**

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol. Gall y cyhoeddiad hwn gynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 yn **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â ni yn y Coleg ar 0800 4963322 neu e-bostiwch **contactus@college.police.uk**

Crëwyd y ddogfen hon gyda'r nod o wneud y cynnwys yn hygyrch ar gyfer yr amrywiaeth mwyaf eang o bobl, ni waeth beth fo'u hanabledd neu nam. I ofyn i gael y ddogfen hon wedi'i darparu mewn fformat arall, cysylltwch â ni yn y Coleg ar 0800 4963322 neu e-bostiwch **contactus@college.police.uk**

Cynnwys

Pasbortau addasiadau i'r gweithle 4
Ynglŷn â'r canllaw hwn 4
Datblygu eich pasbort addasiadau i'r gweithle eich hun 4
Beth yw'r pasbort 4
Ar gyfer pwy mae ef 5
Pwy sy'n berchen arno 5
Sut caiff ei ddefnyddio 5
Addasiadau rhesymol 7
Rhestr wirio 7

Pasbortau addasiadau i'r gweithle

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae pasbort addasiadau i'r gweithle yn gofnod o addasiadau yn y gweithle y mae unigolyn wedi cytuno arnynt. Mae hefyd yn cael ei adnabod fel pasbort anabledd neu addasiadau rhesymol. Dylai fod ar gael i bob swyddog, aelod staff a gwirfoddolwr.

Yn y maes plismona, defnyddir pasbortau addasiadau i'r gweithle mewn dros 60% o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae sawl fersiwn o'r pasbortau hyn ar gael ac mae diffyg cysondeb o ran sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith.

Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob swyddog, staff a gwirfoddolwr. Mae'n amlinellu'r prif egwyddorion pasbortau addasiadau i'r gweithle y dylai pob heddlu lynu wrthynt. Mae'n cynnwys y prif ystyriaethau y gall heddluoedd eu defnyddio i ddatblygu eu pasbortau addasiadau i'r gweithle eu hunain.

Datblygu eich pasbort addasiadau i'r gweithle eich hun

Dylai eich pasbort addasiadau i'r gweithle gynnwys adran ragarweiniol sy'n esbonio:

- beth yw'r pasbort
- ar gyfer pwy mae ef
- pwy sy'n berchen arno
- sut caiff ei ddefnyddio

Beth yw'r pasbort

Mae'r pasbort addasiadau i'r gweithle yn gofnod o addasiadau rhesymol i'r gweithle y cytunwyd arnynt. Mae dau brif bwrpas i basbortau addasiadau i'r gweithle.

1. Gwneud yn siŵr bod addasiadau rhesymol i'r gweithle yn symudol. Pan fydd swyddog, aelod staff neu wirfoddolwr yn newid rôl mewn heddlu neu'n symud i heddlu gwahanol, dylai unrhyw addasiadau i'r gweithle y cytunwyd arnynt symud gyda nhw.
2. Cofnodi addasiadau rhesymol i'r gweithle a chamau i ddileu rhwystrau y cytunwyd arnynt. Dylai'r pasbort addasiadau i'r gweithle gynnwys yr holl

wybodaeth berthnasol, gan nodi pa addasiadau sydd wedi cael eu gwneud a phryd y dylid adolygu'r rhain.

Ar gyfer pwy mae ef

Dylai pasbort addasiadau i'r gweithle fod ar gael i bob swyddog, aelod staff a gwirfoddolwr. Nid yw addasiadau rhesymol i'r gweithle ar gyfer pobl sydd â diagnosis o anabledd neu gyflwr yn unig. Maen nhw ar gyfer pob swyddog, aelod staff a gwirfoddolwr sy'n wynebu rhwystrau sefydliadol, diwylliannol, cymdeithasol a phersonol i gyflawni eu swyddi.

Pwy sy'n berchen arno

Deiliad y pasbort (y swyddog, aelod staff neu wirfoddolwr y mae'r addasiadau'n cael eu rhoi ar waith ar eu cyfer) yw perchennog y pasbort.

Mae cwblhau'r pasbort addasiadau i'r gweithle yn wirfoddol. Serch hynny, cyfrifoldeb y sefydliad yw darparu fformat ar gyfer casglu'r wybodaeth hon a sicrhau bod pob ymgeisydd, pawb sy'n cael eu recriwtio, swyddogion, staff a gwirfoddolwr yn ymwybodol o sut i gael mynediad ato.

Cynghorir heddluoedd i ymgynghori â'u hadrannau cyfreithiol a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol er mwyn datblygu pasbortau addasiadau i'r gweithle.

Sut caiff ei ddefnyddio

Anogir pobl â phasbortau addasiadau i'r gweithle i rannu eu pasbort gyda'u rheolwyr llinell a chysylltiadau priodol, fel y nodwyd gan y deiliad. Gall hyn hwyluso unrhyw drafodaeth am addasiadau a chwalu rhwystrau.

Gall y cysylltiadau hyn gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- y warden tân
- ymarferwyr cymorth cyntaf
- aelodau tîm
- adnoddau dynol neu wasanaethau pobl
- dysgu a datblygu
- aseswyr

- personél iechyd a diogelwch
- staff digwyddiadau
- arlwyo
- ystadau

Pan fydd pasbort addasiadau i'r gweithle wedi cael ei rannu gyda rhywun arall, dylai'r deiliad drefnu lle bynnag y bo'n bosibl i gwrdd â'r person hwnnw i drafod a chofnodi sut y gallan nhw gefnogi unrhyw addasiadau a wnaed.

Bydd y pasbort addasiadau i'r gweithle yn cynnwys adran i gofnodi'r trafodaethau hyn, yn ogystal â dyddiadau cytûn ar gyfer adolygu. Mae'r pasbort addasiadau i'r gweithle yn gofyn i'r deiliad nodi enw a manylion cyswllt, yn ogystal â manylion personol sy'n berthnasol i'r addasiadau sydd eu hangen. Gallai gynnwys manylion am:

- anableddau
- niwroamrywiaethau
- cyfrifoldebau personol a theuluol
- salwch ac anaf
- iaith
- mynediad digidol
- alergeddau

Pan fydd pasbort addasiadau i'r gweithle'n cael ei rannu gyda rheolwr llinell, dylai'r rheolwr geisio trefnu i gwrdd â'r deiliad wedyn i drafod ei ymrwymiadau i addasiadau rhesymol i'r gweithle a sut bydd yn cefnogi, goruchwylio neu reoli rhoi'r rhain ar waith. Cynghorir deiliaid i rannu eu pasbortau addasiadau i'r gweithle gyda'u hadrannau adnoddau dynol i gefnogi gwaith casglu data a chadw cofnodion.

Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r pasbort addasiadau i'r gweithle drin yr wybodaeth yn gwbl gyfrinachol. Ni ddylid ei rhannu gyda chydweithwyr eraill, cysylltiadau nac olynwyr heb ganiatâd y deiliad.

Addasiadau rhesymol

Newidiadau yw addasiadau rhesymol y mae'n rhaid i sefydliadau a phobl sy'n darparu gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus eu gwneud i gyflogeion os yw eu hanabledd yn golygu eu bod nhw dan anfantais o gymharu â phobl eraill nad oes ganddyn nhw anableddau.

Mae dyletswydd ragflaenol ar sefydliadau i wneud yr addasiadau rhesymol hyn. Rhaid i sefydliadau gynllunio ymlaen llaw i fodloni anghenion pobl ag anableddau.

Mae addasiadau i'r gweithle yn cwmpasu addasiadau rhesymol. Maen nhw hefyd yn cynnwys newidiadau mae sefydliadau'n eu gwneud i unrhyw gyflogai sy'n profi rhwystrau i gyflawni eu swydd, pa un a oes ganddyn nhw anabledd neu gyflwr arall neu niwroamrywiaeth a diagnosis.

Rhestr wirio

Rhaid i'r pasbort addasiadau i'r gweithle gynnwys y canlynol:

- Enw deiliad y pasbort.
- Rhagenwau dewisol deiliad y pasbort
- Enw rheolwr llinell neu oruchwyliwr presennol deiliad y pasbort (lle mae'r pasbort wedi cael ei rannu).
- Manylion rhwystrau yn y gweithle - beth sy'n rhwystro deiliad y pasbort rhag gwneud gwaith da (er enghraifft, diffyg cymwysiadau neu fynediad corfforol, neu oriau neu amodau gweithio cyfyngol).
- Manylion cryfderau, profiad, sgiliau a gwybodaeth deiliad y pasbort - gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall deiliad y pasbort ei wneud yn dda.
- Manylion yr hyn sy'n cyfyngu ar berfformiad neu bresenoldeb deiliad y pasbort yn y gwaith - dylai'r rhan hon ganolbwyntio ar yr hyn na all deiliad y pasbort ei wneud. Ni ddylai fod gofyniad i rannu gwybodaeth am gyflyrau meddygol. Mater i ddeiliad y pasbort yw penderfynu pa wybodaeth mae'n ei rhannu am ei sefyllfa bersonol.
- Manylion sut gall y sefydliad helpu i ddileu'r rhwystrau hyn - fel offer mynediad digidol, neu oriau ac amodau gwaith gwahanol.

- Manylion unrhyw addasiadau cytûn i'w gwneud a beth fydd yn wahanol am amodau a threfniadau gweithio deiliad y pasbort o ganlyniad.
- Dyddiad rhoi ar waith a dyddiad adolygu - pwysleisio pryd mae'r addasiadau'n dechrau a phryd bydd partïon perthnasol yn gwirio a yw'r addasiadau'n dal yn briodol.
- Llofnodion y partïon - mae hon yn ddogfen ffurfiol a dylid ei llofnodi gan ddeiliad y pasbort a'r rheolwr llinell presennol fel isafswm, yn ogystal â phartïon eraill ble y bo'n berthnasol.
- Diogelu data - rhaid i'r pasbort addasiadau i'r gweithle gynnwys adran yn esbonio sut bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw, am ba hyd, pwy sydd â mynediad ati, a sut a pham mae ganddyn nhw fynediad.

Ynglŷn â'r Coleg

Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cydweithio gyda phawb yn y maes plismona i rannu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar swyddogion a staff i atal trosedd a chadw pobl yn ddiogel.

Ni sy'n gosod y safonau yn y maes plismona i feithrin a chynnal hyder y cyhoedd ac rydym yn helpu'r rheini yn y maes plismona i ddatblygu'r arbenigedd angenrheidiol i gwrdd â'r galw ar y gwasanaeth heddiw a pharatoi ar gyfer heriau'r dyfodol.

college.police.uk